**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 2 Rhagfyr 2015**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Joanna Price | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Carol Harris | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| Janet Perry | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| Tony Joss | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| Les Eckford | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| Irene Allen | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| Tony Jermyn | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| John Fitzgerald | Cynghrair Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth (RUMA) (pnawn) |

**Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i seithfed cyfarfod y Grŵp gan nodi bod Huw Davies wedi ymddiheuro. Dywedodd y Cadeirydd y byddai Tony Joss yn ymuno â'r cyfarfod yn y pnawn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwaharddiad Symud 6 Diwrnod. Hefyd byddai John Fitzgerald (RUMA) yn ymuno yn y pnawn i roi cyflwyniad ar Ymwrthedd i Gyffuriau (AMR).

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion Cyfarfod 17 Medi a'r Pwyntiau Gweithredu**

2. Cafodd y cofnodion terfynol a'r pwyntiau gweithredu wed'u diweddaru o'r cyfarfod diwethaf eu hanfon dros yr e-bost at aelodau'r Grŵp ym mis Tachwedd fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn. Mae mwyafrif y pwyntiau gweithredu wedi'u cwblhau. Mae rhai pwyntiau gweithredu ar waith o hyd ac mae eraill wedi'u cyflwyno i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Codwyd y testunau canlynol:
   - Bwrdd Llywodraethu Gwyliadwriaeth (SGB) - Esboniodd Christianne mai Nick Fenwick sy'n cynrychioli buddiannau Cymru ar y Bwrdd. Esboniodd fod yr SGB wedi'i sefydlu i sicrhau bod argymhellion Adroddiad Gwyliadwriaeth 2014 sydd heb eu rhoi ar waith yn cael eu cyflawni a bod gwell rhwydwaith gwyliadwriaeth ledled Cymru a Lloegr a chysylltiadau â system Goruchwyliaeth yr Alban. Esboniodd Christianne ei fod yn ddyddiau cynnar ar yr SGB a'i fod yn bwysig sefydlu a deall rôl yr SGB a'r llinellau adrodd i'r Grŵp AHWF. Dywedodd Christianne y bydd yn awr yn mynychu cyfarfodydd

yr SGB. Cytunwyd y byddai Cadeirydd yr SGB yn cael ei wahodd i gyfarfod y Grŵp AHWF ym mis Mawrth.

***Pwynt Gweithredu 1: Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd Cadeirydd yr SGB i gyfarfod mis Mawrth y Grŵp AHWF***.

- Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) - holodd Dai faint y bydd yn ei gymryd i gael arian drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Mynegodd Moss a Dai bryder fod y broses eisoes wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl a gofynnon hefyd a fyddai'r oedi hwn yn effeithio ar y cynlluniau i gyflwyno'r rhaglen ddifa petai'r cais yn cael ei gymeradwyo. Cytunodd y Grŵp y byddai Peredur yn ysgrifennu llythyr at Andrew Slade yn gofyn am ragor o oleuni mewn perthynas â'r amserlen.

***Pwynt Gweithredu 2: Peredur i ysgrifennu at Andrew Slade yn gofyn am ragor o oleuni ar fater yr amserlen ar gyfer y broses o gymeradwyo ceisiadau dan y Cynllun Datblygu Gwledig.***

- Rhaglen ar y We ar gyfer TB - gofynnodd Ifan am y wybodaeth ddiweddaraf am y wefan IBTB (Information Bovine TB). Esboniodd Christianne fod dadl dirymu wedi'i chynnal ar y Gorchymyn TB a enillwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd y rhaglen ar we a fydd yn edrych ar safleoedd cyffiniol yn cael ei lansio ym mis Mawrth. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cytuno y bydd yn ystyried ei hatal yn syth os bydd unrhyw broblemau gyda diogelwch y system.

## <u>Eitem 3 ar yr Agenda: Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd</u>

3. Rhoddodd Peredur y diweddaraf am weithgarwch diweddar.

- Cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd - esboniodd Peredur ei fod wedi cael cyfarfod defnyddiol gyda'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ym mis Tachwedd. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp gan gynnwys ymgysylltu â'r sector lles, Ymwrthedd i Gyffuriau (AMR), bioddiogelwch, BVD a Chlafr mewn Defaid. Cadarnhaodd y byddai ei gyfarfod nesaf gyda'r Dirprwy Weinidog ar 16 Mawrth.

- Clafr a Chloffni mewn Defaid - esboniodd Peredur fod Ifan a Moss, ar ôl trafodaethau gyda swyddogion Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, yn adolygu'r cynnig gyda'r bwriad o'i gyflwyno maes o law. Cadarnhaodd Janet fod Huw mewn cysylltiad â Ruth Clements ar fater cloffni mewn defaid.

***Pwynt Gweithredu 3: Moss ac Ifan i gyflwyno cynnig diwygiedig.***

- BVD - cadarnhaodd Peredur fod Datganiad Diddordeb yng nghyswllt BVD ar gyfer cyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru wedi'i gyflwyno. Yn dilyn y drafodaeth gynharach, cytunodd y Grŵp y byddai'n ddefnyddiol ysgrifennu at sefydliadau â diddordeb i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y cynnydd sydd wedi'i wneud a hefyd rhoi diweddariad cyffredinol i'r cyhoedd.

***Pwynt Gweithredu 4: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddrafftio diweddariad ar BVD a pharatoi llythyr ar gyfer sefydliadau allweddol a threfnu iddo fod ar gael i'r cyhoedd.***

- Pedwar Cadeirydd - esboniodd Peredur y bydd cyfarfod nesaf y pedwar cadeirydd yng Nghaerdydd ar 14 Ionawr. Cytunwyd y dylai aelodau anfon unrhyw eitemau posibl ar gyfer yr agenda at yr Ysgrifenyddiaeth.

***Pwynt Gweithredu 5: Aelodau i anfon unrhyw eitemau posibl ar gyfer yr agenda at yr Ysgrifenyddiaeth.***

- CHAWG/SHAWG - esboniodd Peredur fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi dosbarthu cofnodion a phapurau cyfarfodydd diwethaf CHAWG a SHAWG yn ogystal â dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf. Cadarnhaodd Peredur a Dai y gallant fynychu cyfarfod CHAWG ar 28 Ionawr ac mae Huw wedi cadarnhau y bydd yn mynychu cyfarfod SHAWG ar 4 Chwefror. Dywedodd hefyd fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi dosbarthu nodiadau cyfarfod Cynllunio Prosiect AMR CHAWG a gynhaliwyd ar 20 Hydref. Esboniodd hefyd fod CHAWG yn awr yn bwriadu cynnal gweithdy ar 14 Ionawr i drafod sut y gall y sector gwartheg symud ymlaen i gasglu a chyfuno data ar y defnydd o feddyginiaethau ar lefel fferm. Pwysleisiodd Peredur ei fod yn bwysig iawn i'r Grŵp ymgysylltu â CHAWG ar y gwaith hwn.

***Pwynt Gweithredu 6: Yr Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau pwy fydd yn mynychu gweithdy CHAWG ar 14 Ionawr.***

- Esboniodd Christianne fod AMR yn fater eithriadol o bwysig a'i bod yn gweithio i sefydlu cysylltiadau gyda Phrif Swyddog Meddygol Cymru i asesu'r potensial ar gyfer gweithio ar y cyd.

- Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth - esboniodd Peredur fod yr ymateb i'r ymgynghoriad wedi'i gydnabod a'n bod yn disgwyl i'r canlyniadau llawn gael eu cyhoeddi. Dywedodd Carol ei bod wedi cwrdd â swyddogion sy'n gweithio ar y Fframwaith Amaethyddiaeth. Cytunodd y Grŵp ei bod yn bwysig deall aelodaeth, rôl a chylch gwaith y grŵp partneriaeth arfaethedig a sut y bydd yn cysylltu â Grŵp AHWF. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y llythyr oddi wrth Peredur at Andrew Slade - gweler Pwynt Gweithredu 2.

## Eitem 4 ar yr Agenda: Y diweddaraf gan Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

4. Rhoddodd Christianne y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol:
    - Cynhadledd Dofednod NFU Cymru - esboniodd Christianne ei bod wedi cael ei gwahodd i roi cyflwyniad yn y gynhadledd, ar ffliw adar. Esboniodd i'r cyfarfod fod yn gadarnhaol iawn ac roedd cynrychiolwyr y diwydiant dofednod yn cymryd eu cyfrifoldebau dros fioddiogelwch o ddifrif. Cofnodwyd fel pwynt gweithredu yn y cyfarfod blaenorol y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r diwydiant dofednod i gyfarfod y Grŵp AHWF ym mis Mawrth.

- Cynllunio wrth gefn - esboniodd Christianne ei bod wedi cyfrannu at ymarfer wrth gefn yn ddiweddar ‘Ymarfer Rowan’. Dywedodd mai un o'r prif faterion yn yr ymarfer oedd ystyried y dystiolaeth ynghylch a ddylid brechu yn erbyn clwy traed a’r genau neu beidio.

- Prifysgol Aberystwyth - esboniodd Christianne ei bod yn ymwybodol fod y Brifysgol yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer ysgol filfeddygol a’u bod wedi cael arian ar gyfer Deon Sylfaen a fydd yn gyfrifol am lunio'r cynllun busnes a’r maes llafur arfaethedig. Mae hyn yn garreg filltir bwysig yn y broses hon.

- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion - esboniodd Christianne fod yr Asiantaeth wrthi'n adolygu eu milfeddygon Gradd 6 a’r rhai nad ydynt yn filfeddygon gyda'r bwriad o ailstrwythuro. Cytunodd i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Grŵp AHWF yn ôl yr angen.

- Dirprwy Prif Swyddog Milfeddygol y Deyrnas Unedig (DCVO) - esboniodd Christianne fod y DCVO presennol yn ymddeol yn ddiweddarach y mis hwn. Cytunodd Christianne i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp ar y broses i recriwtio olynydd.

- Lles Anifeiliaid adeg eu Lladd - esboniodd Christianne iddi fod mewn cyfarfod gyda Gweithredwyr Busnesau Bwyd yn y Ffair Aeaf i drafod y defnydd o deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai. Dywedodd i’r cyfarfod fod yn ddefnyddiol a bydd yn rhoi gwybod i'r Grŵp AHWF am y cynnydd a wneir yn ôl yr angen.

- Mewnforio Cŵn Bach yn Anghyfreithlon - esboniodd Christianne fod hyn wedi digwydd ar sawl achlysur yn ystod y misoedd diwethaf. Esboniodd fod hyn yn achosi risg wirioneddol o gyflwyno afiechydon a bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal gydag awdurdodau lleol ar drin yr achosion hyn yn unol â'r ddeddfwriaeth.

- TB - esboniodd Christianne fod y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi gwneud datganiad ddoe ar Frechu Moch Daear. Os oes gan aelodau gwestiynau, cytunwyd y dylid eu hanfon i flwch post yr Ysgrifenyddiaeth

***Pwynt Gweithredu 7: Aelodau i anfon unrhyw gwestiynau ar frechu moch daear i Flwch Post yr Ysgrifenyddiaeth.***

**Eitem 5 ar yr Agenda: Cynllun Gweithredu 2015-16 - Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid**

5. Esboniodd Peredur fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi Adolygiad Canol Blwyddyn o Gynllun Gweithredu'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid a fydd yn cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

6. Diolchodd Carol i'r Grŵp am eu sylwadau ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn drafft. Esboniodd y byddai cyngor yn cael ei roi i Weinidogion cyn y Nadolig. Yn amodol ar gael cymeradwyaeth Gweinidogion, bydd yr Adolygiad Canol Blwyddyn yn cael ei gyhoeddi yn ystod wythnos olaf mis Ionawr. Gofynnodd Carol am i unrhyw sylwadau terfynol gael eu hanfon i Flwch Post yr Ysgrifenyddiaeth cyn gynted ag y bo modd.

***Pwynt Gweithredu 8: Aelodau i anfon unrhyw sylwadau terfynol ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Gynllun Gweithredu AHWF i Flwch Post yr Ysgrifenyddiaeth cyn gynted ag y bo modd.***

## Eitem 6 ar yr Agenda: Blaenoriaethau'r Sector Lles

7. Rhoddodd Peredur groeso i Les Eckford, Cynghorydd Milfeddygol ac Irene Allen, Pennaeth Polisi Lles Anifeiliaid. Esboniodd fod Jo ac Ifan wedi bod yn ymwneud â datblygu gwaith ar ymgysylltu â'r sector lles - teulu'r ceffyl ac anifeiliaid anwes. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) ar 23 Hydref. Dywedodd Jo ac Ifan i'r cyfarfod fod yn un cadarnhaol iawn a'r prif gam y cytunwyd arno oedd i'r ddau sector anfon eu tair blaenoriaeth uchaf i'r Grŵp AHWF erbyn y Nadolig. Cytunodd y Grŵp y dylai'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn fod ar gael er mwyn i bartïon eraill â diddordeb nad ydynt yn aelodau o'r AWNW gael cyfle i roi eu barn.

***Pwynt Gweithredu 9: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddrafftio diweddariad ar ymgysylltu â'r sector lles a threfnu iddo gael ei gyhoeddi ar dudalennau gwefan AHWF.***

8. Esboniodd Peredur fod y Grŵp AHWF wedi cael cais i ddarparu safbwynt ar yr Adolygiad drafft o Dystiolaeth Ddiweddar yng Nghyswllt Goblygiadau Lles Defnyddio Coleri Sioc Drydanol i Gathod a Cŵn. Cytunwyd y byddai'r aelodau yn cyflwyno sylwadau i flwch post yr Ysgrifenyddiaeth.

***Pwynt Gweithredu 10: Aelodau i anfon sylwadau ar yr Adolygiad o Goleri Sioc Drydanol i Flwch Post yr Ysgrifenyddiaeth.***

## Eitem 7 ar yr Agenda: Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid yr UE

9. Croesawodd Peredur Tony Jermyn i'r cyfarfod, arweinydd polisi ar reoliadau iechyd anifeiliaid yr UE a Les Eckford, Cynghorydd Milfeddygol. Esboniodd Peredur fod y Grŵp wedi derbyn Brîff Craidd mis Gorffennaf ar Reoliadau Iechyd Anifeiliaid yr UE. Esboniodd Les fod y rheoliadau drafft wedi'u cytuno arnynt ac mae'n debyg y byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2016. Rhagwelir y byddant yn cael eu gweithredu'n llawn erbyn 2021. Esboniodd

Tony fod Gweithgor Technegol wedi'i sefydlu erbyn hyn i weithio ar negodiadau trydyddol. Cytunwyd y bydd y Grŵp AHWF yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael ei gynnwys yn y broses yn ôl yr angen.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Ymgyrch bioddiogelwch**

10. Dywedodd Peredur ei fod yn falch o'r ymateb da i'r Arolwg Bioddiogelwch a gafodd dros 300 o ymatebion. Esboniodd Carol fod y dadansoddiad ystadegol a'r dadansoddiad polisi cychwynnol o'r canlyniadau wedi cael eu hanfon at yr aelodau. Esboniodd fod y gwaith yn mynd rhagddo i lunio'r adroddiad terfynol drafft. Esboniodd fod y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi dweud y byddai'n hoffi gweld y canlyniadau ac wedi cytuno mewn egwyddor i gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig pan gânt eu cyhoeddi. Dywedodd Carol y byddai'r cyngor a'r adroddiad terfynol drafft yn cael ei roi i Weinidogion cyn y Nadolig. Y bwriad yw cyhoeddi'r adroddiad yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror. Esboniodd fod gwaith hefyd yn cael ei wneud ar yr un pryd i lunio 4 ffilm astudiaeth achos a fydd yn cael eu cyhoeddi ychydig ar ôl canlyniadau'r arolwg, gan ganolbwyntio ar y testunau a gafodd sylw yn yr arolwg. Dywedodd Carol y bydd yn dosbarthu'r adroddiad drafft i'r aelodau i gael sylwadau terfynol.

***Pwynt Gweithredu 11: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r adroddiad drafft er mwyn cael sylwadau terfynol. Aelodau i anfon sylwadau i Flwch Post yr Ysgrifenyddiaeth.***

**Eitem 9 ar yr Agenda: Gwaharddiad Symud Chwe Diwrnod - y diweddaraf am Weithdai ac Ymgynghori**

11. Croesawodd Peredur Tony Joss, Pennaeth Polisi Clefydau Egsotig i'r cyfarfod. Esboniodd Tony y bydd yr ymgynghoriad ar y Gwaharddiad Symud Chwe Diwrnod yn cael ei lansio cyn y Nadolig. Esboniodd fod rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi bod yn gysylltiedig â datblygu'r ymgynghoriad a'r opsiynau a gyflwynir ynddo. Esboniodd y byddai'r ymgynghoriad ar agor am 10 wythnos. Dywedodd Moss y byddai'n gam cadarnhaol iawn pe gellid annog cynifer â phosibl o ffermwyr i ddefnyddio unedau cwarantin gan fod hyn yn ffactor pwysig ar gyfer gwella safonau bioddiogelwch. Dywedodd Dai ei fod yn hollbwysig fod y diwydiant yn rhan o hyn. Esboniodd Ifan y byddai'n bwysig monitro sut y bydd ffermydd llai yn delio ag unedau cwarantin a'r goblygiadau posibl o ran cost. Cytunodd y Grŵp y byddai angen iddynt ystyried yr ymgynghoriad a darparu ymateb. Cytunwyd y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu yn y Flwyddyn Newydd i drafod y papurau ymgynghori.

***Pwynt Gweithredu 12: Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod yn y Flwyddyn Newydd er mwyn i'r Grŵp drafod yr Ymgynghoriad ar y Gwaharddiad Symud Chwe Diwrnod.***

**Eitem 10 ar yr Agenda: Cyflwyniad a thrafodaeth ar Ymwrthedd i Gyffuriau (AMR)**

12. Esboniodd Peredur mai un o'r camau gweithredu o gyfarfod blaenorol oedd gwahodd John Fitzgerald o RUMA i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar AMR a chael trafodaeth. Croesawodd John i'r cyfarfod gan egluro mai AMR yw un o brif flaenoriaethau'r Grŵp ar gyfer 2015/16. Esboniodd fod y Grŵp yn ystyried sut y gallant godi ymwybyddiaeth o AMR ymysg ceidwaid anifeiliaid yng Nghymru.

    Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i atodi i'r cofnodion.

    Diolchodd Peredur i John am ei gyflwyniad. Dywedodd Christianne fod cyfle ar hyn o bryd i drafod AMR fel prif flaenoriaeth o fewn y Gwasanaeth Cyswllt Ffermio newydd. Cytunodd y Grŵp ei fod yn bwysig iawn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am weithgareddau RUMA a'r gwaith y maent yn ei ddatblygu. Cytunodd John fod croeso i'r Grŵp ddefnyddio cyngor ac arweiniad cyhoeddedig RUMA. Awgrymodd Moss y gallai gynnwys dolen i wefan RUMA yng nghylchlythyr Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru yn y Flwyddyn Newydd.

***Pwynt Gweithredu 13: Moss a John i drafod cynnwys yr erthygl AMR yng nghylchlythyr Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru, a dolen i'r cylchlythyr.***

**Eitem 11 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall**

13. Nid oedd dim materion eraill. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Mawrth ym Mharc Cathays.